Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYFARFOD ARBENNIG O GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**11.30 y.b., DYDD GWENER, 6ED CHWEFROR, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD

### Aelodau Cyngor

| | |
|---|---|
| Cyng. Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng. Gary Pritchard | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. Mark Pritchard | Cyngor Wrecsam |
| Cyng. Dave Hughes | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng. Nia Jeffreys | Cyngor Gwynedd |

### Aelod Eryri

| | |
|---|---|
| Cyng. Edgar Wyn Owen | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

### Prif Weithredwyr Cynghorau Cyfansoddol

| | |
|---|---|
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Helen White | Cyngor Sir Ddinbych |
| Alwyn Jones | Cyngor Wrecsam |
| Jonathan Cawley | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

### Swyddogion Statudol

| | |
|---|---|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor |
| Dewi Aeron Morgan | Prif Swyddog Cyllid |
| Iwan G Evans | Swyddog Monitro |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gelir eu hystyried.

## 4. PENODI SWYDDOG MONITRO DROS DRO 4 - 5

Alwen Williams, Prif Weithredwr, i gyflwyno'r adroddiad.

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD
6 Chwefror, 2026

TEITL: Penodi Swyddog Monitro Dros Dro

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Argymell penodi Swyddog Monitro.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo penodiad Mark Watkins fel Swyddog Monitro.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliad 7 o Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021) yn gosod dyletswydd ar y CBC i benodi Swyddog Monitro.

3.2. Mae'r Swyddog Monitro yn swydd Prif Swyddog statudol ac, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyflogaeth a Chynllun Dirprwyo'r CBC, mae eu penodiad yn fater a gedwir i'r CBC. Mae dynodi Dirprwy Swyddog Monitro yn benodiad personol gan y Swyddog Monitro.

3.3. Mae'r CBC wedi cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer penodi swydd Lawn Amser Swyddog Cyfreithiol a Llywodraethu a fyddai'n Swyddog Monitro. Ar hyn o bryd mae'r swyddogaeth honno yn cael ei chyflawni ar sail rhan-amser gan Iwan Evans, Pennaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro yng Nghyngor Gwynedd. Mae Iwan yn bwriadu camu i lawr o'r rôl.

3.4. Mae nifer o heriau ymarferol a llywodraethu wedi dod i'r amlwg wrth i weithgareddau'r CBC ddatblygu ac wrth i waith rhanbarthol gael ei ymgorffori ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwysau gweithredol a risg oherwydd rhannu capasiti swyddogion, gyda gofynion deublyg cyfrifoldebau Cyngor Gwynedd a rhanbarthol (CBC).
- Diffyg capasiti cyffredinol ac effaith gofynion sy'n gwrthdaro ar swyddogion.
- Gwrthdaro buddiannau posibl i swyddogion statudol sy'n gorfod cynghori Cyngor Gwynedd a'r CBC.
- Risg ynghylch canfyddiadau o annibyniaeth a didueddrwydd, yn enwedig mewn amgylchiadau lle gall cyngor neu benderfyniadau'r CBC gael canlyniadau uniongyrchol ar gynghorau unigol.
- Eglurder atebolrwydd a rheoli risg lle gall cyfrifoldebau statudol wrthdaro rhwng y ddau sefydliad.

3.5. Ddydd Gwener 23 Ionawr cytunwyd ar gyllideb y CBC ar gyfer 2026/27. Gwneir darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer x1 cyfwerth ag amser llawn ar gyfer Swyddog Monitro ac mae camau wedi'u cymryd ar unwaith i adnabod ymgeisydd addas i ymgymryd â'r rôl ar sail amser llawn, dros dro, er mwyn caniatáu i'r gwaith o recriwtio swyddog parhaol fynd rhagddo.

3.6. Wedi chwilio'r farchnad dros dro, adnabuwyd Mark Watkins, arweinydd profiadol iawn yn y sector llywodraeth leol a chyfreithiwr locwm gweithredol sy'n gorffen cyfnod o wyth mis fel Cyfarwyddwr Strategol Dros Dro y Gyfraith a Llywodraethu a Swyddog Monitro gyda Chyd-bwyllgor Corfforedig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 30th Ionawr, 2026. Mae gan Mark hanes cryf o arwain aseiniadau interim trawsnewidiol, gan gynnwys ailysgrifennu cyfansoddiadau, cryfhau llywodraethu, ail-lunio timau proffesiynol, gwella perfformiad, a gyrru effeithlonrwydd a chynhyrchu incwm. Bydd ei brofiad diweddar o ymgymryd â'r rôl hon ar gyfer CBC Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn amhrisiadwy i Ogledd Cymru.

3.7. Er mwyn sicrhau Mark i'r rôl, roedd angen penderfyniad yn gyflym, felly er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn ac i ganiatáu amser i ddatblygu'r trefniadau parhaol, mae Mark wedi'i gontractio fel locwm gan ddechrau ar 2 Chwefror i ymgymryd â dyletswyddau'r rôl. Bydd Iwan Evans, Swyddog Monitro'r CBC yn trosglwyddo ei gyfrifoldebau yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'n briodol bod Mark hefyd yn cael ei benodi i rôl y Swyddog Monitro.

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae ganddo fuddiant personol yn yr adroddiad ar ddyddiad ei ysgrifennu.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Dim gwrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisir."